



Lynette Lovell
Prif Swyddog Addysg Dros Dro
Interim Chief Education Officer

Yr holl Randdeiliaid
All Stakeholders

Annwyl randdeiliaid / Dear stakeholders,

Yn dilyn penderfyniad y Cabinet, mae Cyngor Sir Powys erbyn hyn wedi cyhoeddi Hysbysiad Statudol yn cynnig newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen o Ddwyr Ffrwd i gyfrwng Cymraeg.

Mae copi o'r hysbysiad hwn wedi'i atodi, a gallwch hefyd ei weld ar wefan y Cyngor:
<https://cy.powys.gov.uk/article/10004/Ysgol-Bro-Hyddgen-Machynlleth>

Bydd yna gyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod gyda chyfle i unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu'r cynnig hwn i wneud hynny. I gael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol, rhaid i'r gwrthwynebiadau fod trwy lythyr neu e-bost a rhaid eu hanfon i'r cynigydd o fewn 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynnig.

Y dyddiad y daw'r cyfnod gwrthwynebu i ben o ran y cynnig hwn yw 15 Gorffennaf 2021.

Atebwch os gwelwch yn dda /Please reply to:

Gwasanaeth Ysgolion / Schools Service
Cyngor Sir Powys / Powys County Council
Neuadd y Sir / County Hall
Llandrindod Wells
Powys LD1 5LG

Os yn galw gofynnwch am / If calling please ask for

Tîm Trawsnewid Addysg / Transforming Education Team

Ffôn / Tel: 01597 826618

E-bost / Email: school.organisation@powys.gov.uk

Eich cyf / Your ref:

Ein cyf / Our ref:

Dyddiad / Date: 17 Mehefin / June 2021

Further to the decision made by Cabinet, Powys County Council has now published a Statutory Notice proposing to move change the language category of Ysgol Bro Hyddgen from Dual Stream to Welsh-medium.

A copy of this notice is attached, and is also available on the Council's website:
<https://en.powys.gov.uk/article/9999/Ysgol-Bro-Hyddgen-Machynlleth>

There is now an Objection Period of 28 days, during which anyone who wishes to make objections to this proposal can do so. To be considered as statutory objections, objections must be made in writing or by e-mail, and must be sent to the proposer within 28 days of the date on which the proposal was published.

The objection period in respect of this proposal will end on 15 July 2021.

Yn gywir / Yours sincerely,

Lynette Lovell

Prif Swyddog Addysg Dros Dro / Interim Chief Education Officer

Yn agored a blaengar - Open and enterprising

www.powys.gov.uk

CYNGOR SIR POWYS

HYSBYSIAD O GYNNIG I AD-DREFNU YSGOLION DAN DDEDDF SAFONAU A THREFNIADAETH YSGOLION (CYMRU) 2013

Rhoddir rhybudd drwy hyn yn unol ag adran 42 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ("y Ddeddf") a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion ("y Cod") bod Cyngor Sir Powys, Neuadd y Sir, Llandrindod, Powys LD1 5LG ("y Cyngor"), wedi iddo ymgynghori â'r unigolion gofynnol, yn cynnig y canlynol:-

- i. Gwneud newid rheoledig i ddiwygio cyfrwng y dysgu yn Ysgol Bro Hyddgen, Machynlleth, Powys, SY20 8DR o Ddwyr Ffrwd i Gyfrwng Cymraeg.
- ii. Byddai hyn yn cael ei gyflwyno fesul cam, o flwyddyn i flwyddyn, gan ddechrau gyda Derbynt ym mis Medi 2022.

Bydd y cynnig yn cael ei gyflwyno fesul cam wrth i'r disgyblion sy'n ymuno â dosbarth Derbynt yr ysgol ym mis Medi 2022 symud drwy'r ysgol. Byddai hyn yn cael ei weithredu ar gyfer pob grŵp Blwyddyn fel a ganlyn:

Cyfnod Cynradd:

Derbyn – Medi 2022
Blwyddyn 1 – Medi 2023
Blwyddyn 2 – Medi 2024
Blwyddyn 3 – Medi 2025
Blwyddyn 4 – Medi 2026
Blwyddyn 5 – Medi 2027
Blwyddyn 6 – Medi 2028

Cyfnod Uwchradd:

Blwyddyn 7 – Medi 2029
Blwyddyn 8 – Medi 2030
Blwyddyn 9 – Medi 2031
Blwyddyn 10 – Medi 2032
Blwyddyn 11 – Medi 2033
Blwyddyn 12 – Medi 2034
Blwyddyn 13 – Medi 2035

Cynhelir yr ysgol ar hyn o bryd gan Gyngor Sir Powys.

Cynhaliodd y Cyngor gyfnod o ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ymgynghori sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan yr ymgylgorion, ymatebion y Cyngor a barn Estyn ar gael ar wefan y Cyngor:

<https://cy.powys.gov.uk/article/10004/Ysgol-Bro-Hyddgen-Machynlleth>

Derbyniadau

Bydd y Cyngor yn parhau i fod yr awdurdod derbyniadau ar gyfer yr ysgol newydd. Ni fydd y cynnig yn effeithio ar nifer y disgyblion a fydd yn cael eu derbyn yn Ysgol Bro Hyddgen. Byddai'r nifer derbyn ar gyfer disgyblion sy'n cael eu derbyn am y tro cyntaf i'r cyfnod cynradd yn parhau i fod yn 30. Byddai'r nifer derbyn ar gyfer disgyblion Blwyddyn 7 yn parhau i fod yn 72.

O 1 Medi 2022:

- Byddai'r holl ddisgyblion a dderbynir i'r grŵp blwyddyn Derbynt yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
- Byddai pob disgybl a dderbynir i unrhyw grwpiau Blwyddyn arall yn gallu mynegi dewis ar gyfer y ffrwd cyfrwng Cymraeg neu'r ffrwd cyfrwng Saesneg, yn unol â'r trefniadau presennol.

Byddai hyn yn parhau i fod yn wir tan fod categori iaith y flwyddyn berthnasol wedi newid, fel yr amlinellir uchod.

Gall rhieni fynegi dewis ar gyfer ysgol arall a bydd y Cyngor yn cydymffurfio ag unrhyw ddewis a fynegir yn amodol ar Adran 86(3) Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Categori iaith

Ar ôl gweithredu'r cynnig yn llawn, categori iaith Ysgol Bro Hyddgen, fel y'i diffinnir gan Ddogfen Wybodaeth Llywodraeth Cymru rhif 023/2007¹ "Diffinio Ysgolion yn ôl y Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg", fydd fel a ganlyn:

- Cyfnod Cynradd – Cyfrwng Cymraeg (Categori 1)
- Cyfnod Uwchradd – Ddwylieithog (Categori 2A)

Cludiant

Ni fydd unrhyw newid i'r trefniadau cludiant ar gyfer disgylion sy'n mynchy Ysgol Bro Hyddgen ar hyn o bryd.

Darperir cludiant yn unol â Pholisi Cludiant y Cyngor rhwng y Cartref a'r Ysgol ar gyfer disgylion a fydd yn mynchy Ysgol Bro Hyddgen yn y dyfodol.

Gweithredu

Bydd y cynnig yn cael ei weithredu gan Gyngor Sir Powys, yn unol â'r camau a amlinellir uchod.

Sut i fynegi Gwrthwynebiad i'r Rhybudd yma

Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynigion hyn o fewn cyfnod o 28 diwrnod ar ôl diwrnod eu cyhoeddi, hynny yw erbyn **dydd iau 15 Gorffennaf 2021**.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at Lynette Lovell, Prif Swyddog Addysg Dros Dro, Cyngor Sir Powys, Neuadd Sir Powys, Llandrindod, Powys, LD1 5LG neu drwy e-bost at education@powys.gov.uk.

Bydd Cyngor Sir Powys yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau o'r fath a wnaed o fewn y cyfnod gwrthwynebu (a heb eu tynnu'n ôl trwy lythyr), ynghyd â sylwadau'r Cyngor arnynt, o fewn cyfnod a nodir yn y Cod.

Lynette Lovell

Prif Swyddog Addysg Dros Dro
Ar ran Cyngor Sir Powys

Dyddiedig y diwrnod hwn 17 Mehefin 2021

NODYN EGLURHAOL

(Nid yw'r nodyn eglurhaol hwn yn ffurio rhan o'r Rhybudd, ond cynigir y nodyn fel modd o egluro'r sefyllfa).

- Mae'r Cyngor yn bwriadu newid categori iaith Ysgol Bro Hyddgen, Machynlleth o Ysgol Ddwyl Ffrwd i Ysgol Cyfrwng Cymraeg.
- Manylwyd ar sail resymegol y cynnig hwn mewn Dogfen Ymgynghori a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020. Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi Adroddiad Ymgynghori wedi hynny, sy'n crynhoi'r materion a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori gan ddarparu ymateb y Cyngor i'r materion hyn. Mae'r Adroddiad Ymgynghori ar gael ar wefan y Cyngor: <https://cy.powys.gov.uk/article/10004/Ysgol-Bro-Hyddgen-Machynlleth>
- Y bwriad yw bod y newid i categori iaith yr ysgol yn digwydd fesul cam, o flwyddyn i flwyddyn, gan ddechrau gyda Derbyn ym mis Medi 2022.
- Byddai pob disgyl sy'n defnyddio darpariaeth cyfrwng Saesneg yn yr ysgol ar hyn o bryd yn gallu parhau i fanteisio ar y ddarpariaeth hon drwy gydol eu hamser yn Ysgol Bro Hyddgen.
- Ar ôl gweithredu'r cynnig, byddai pob disgyl sy'n mynchy Ysgol Bro Hyddgen yn datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ddod yn gwbl ddwylieithog, yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg.

¹ Ar gael yma: <https://llyw.cymru/diffinio-ysgolion-yn-ol-y-ddarpariaeth-cyfrwng-cymraeg>

- Byddai'r newid yng nghategori iaith yr ysgol yn cael ei gyflwyno fesul cam fel a ganlyn:

Cyfnod Cynradd:

Derbyn – Medi 2022
Blwyddyn 1 – Medi 2023
Blwyddyn 2 – Medi 2024
Blwyddyn 3 – Medi 2025
Blwyddyn 4 – Medi 2026
Blwyddyn 5 – Medi 2027
Blwyddyn 6 – Medi 2028

Cyfnod Uwchradd:

Blwyddyn 7 – Medi 2029
Blwyddyn 8 – Medi 2030
Blwyddyn 9 – Medi 2031
Blwyddyn 10 – Medi 2032
Blwyddyn 11 – Medi 2033
Blwyddyn 12 – Medi 2034
Blwyddyn 13 – Medi 2035

- Ar ôl gweithredu'r cynnig yn llawn, categori iaith y cyfnod cynradd fyddai cyfrwng Cymraeg (Categori 1), a chategori iaith y cyfnod uwchradd fyddai Dwyieithog (Categori 2A).
- Mae dogfen wybodaeth Llywodraeth Cymru "Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg 023/2007" yn rhoi disgrifiad o'r categorïau iaith ar gyfer ysgolion yn ôl faint o Gymraeg a ddefnyddir mewn addysgu a dysgu. Mae'r ddogfen ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn: <https://llyw.cymru/diffinio-ysgolion-yn-ol-y-ddarpariaeth-cyfrwng-cymraeg>
- Yn ddiweddar, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar categorïau ysgolion wedi'u diweddu yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Gellir cael gwybodaeth am yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru yn y cyfeiriad hwn: <https://llyw.cymru/categoreiddio-ysgolion-yn-ol-y-ddarpariaeth-cyfrwng-cymraeg>. Nid yw canlyniad yr ymgynghoriad hwn wedi'i gyhoeddi eto.
- Unwaith y cyhoeddir canlyniad yr ymarfer ymgynghori diweddar gan Lywodraeth Cymru ar categorïau iaith ysgolion, bydd y Cyngor yn adolygu categori iaith Ysgol Bro Hyddgen yn unol â'r camau sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru.
- Mae rhagor o wybodaeth am ddwyieithrwydd ac addysg Cyfrwng Cymraeg ar gael ar wefan y Cyngor yn: <https://cy.powys.gov.uk/article/10744/Taith-at-Ddwyl-laith-manteision-dewis-addysg-Gymraeg>
- Er mwyn cefnogi'r newid i categori iaith Ysgol Bro Hyddgen, byddai'r Cyngor yn sicrhau bod cymorth iaith ychwanegol ar gael yn yr ysgol i gefnogi disgylion, gan gynnwys darpariaeth drochi, cymorth iaith Gymraeg ychwanegol a chyfleoedd i rieni ddysgu Cymraeg.
- Ni fyddai'r cynnig hwn yn effeithio ar hawl rhieni i fynegi dewis ar gyfer ysgolion eraill.
- Ni fyddai unrhyw newid i'r trefniadau cludiant ar gyfer disgylion sy'n mynychu Ysgol Bro Hyddgen ar hyn o bryd. Byddai cludiant yn cael ei ddarparu yn unol â pholisi cludiant y Cyngor o'r cartref i'r ysgol ar gyfer disgylion a fydd yn mynychu Ysgol Bro Hyddgen yn y dyfodol.,

POWYS COUNTY COUNCIL

NOTICE OF SCHOOL REORGANISATION PROPOSAL UNDER THE SCHOOL STANDARDS AND ORGANISATION (WALES) ACT 2013

Notice is hereby given in accordance with section 42 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 ("the Act") and the School Organisation Code 011/2018 ("the Code"), that Powys County Council of County Hall, Llandrindod Wells, Powys LD1 5LG ("the Council"), having consulted such persons as required, proposes the following:-

- iii. To make a regulated alteration to alter the medium of instruction at Ysgol Bro Hyddgen, Machynlleth, Powys, SY20 8DR from Dual Stream to Welsh-medium.
- iv. This would be introduced on a phased basis, year-by-year, starting with Reception in September 2022.

The proposal will be introduced on a phased basis as the pupils joining the school's Reception class in September 2022 move through the school. The phasing of the implementation for each year group would be as follows:

Primary phase:

Reception – September 2022
Year 1 – September 2023
Year 2 – September 2024
Year 3 – September 2025
Year 4 – September 2026
Year 5 – September 2027
Year 6 – September 2028

Secondary phase:

Year 7 – September 2029
Year 8 – September 2030
Year 9 – September 2031
Year 10 – September 2032
Year 11 – September 2033
Year 12 – September 2034
Year 13 – September 2035

The school is currently maintained by Powys County Council.

The Council undertook a period of consultation before deciding to publish this proposal. A consultation report containing a summary of the issues raised by consultees, the responses of the Council and the views of Estyn is available on the Council's website:

<https://en.powys.gov.uk/article/9999/Ysgol-Bro-Hyddgen-Machynlleth>

Admissions

The Council will continue to be the admissions authority for the new school. The proposal will not impact on the admissions number for Ysgol Bro Hyddgen. The admissions number for first time admission to the primary phase would continue to be 30. The admissions number for pupils in Year 7 would continue to be 72.

From 1 September 2022:

- All pupils admitted to the Reception year group would be taught through the medium of Welsh
- All pupils admitted to any other year groups would be able to express a preference for the Welsh-medium stream or the English-medium stream, in accordance with the current arrangements.

This would continue to be the case until the language category of the relevant year has changed, as outlined above.

Parents may express a preference for another school and the Council will comply with any such expressed preference subject to Section 86(3) of the School Standards and Framework Act 1998.

Language Category

Following full implementation of the proposal, the language category of Ysgol Bro Hyddgen, as defined by “Defining Schools According to Welsh medium Provision”, Welsh Government Information Document No: 023/2007² will be as follows:

- Primary Phase – Welsh-medium (Category 1)
- Secondary Phase – Bilingual (Category 2A)

Transport

There will be no change to the transport arrangements for pupils currently attending Ysgol Bro Hyddgen.

For pupils attending Ysgol Bro Hyddgen in the future, transport will be provided in accordance with the Council’s Home-to-School Transport Policy.

Implementation

The proposal will be implemented by Powys County Council, in accordance with the phasing outlined above.

How to Object to this Notice

Within a period of 28 days after the date of publication of these proposals, that is to say by **Thursday 15th July 2021** any person may object to the proposals.

Objections should be sent to Lynette Lovell, Interim Chief Education Officer, Powys County Council, Powys County Hall, Llandrindod Wells, Powys, LD1 5LG or by email to education@powys.gov.uk.

Powys County Council will publish a summary of any such objections made within the objection period (and not withdrawn in writing), together with the Council’s observations thereon, within the period set out in the Code.

Lynette Lovell
Interim Chief Education Officer
For Powys County Council

Dated this day 17th June 2021.

EXPLANATORY NOTE

(This explanatory note does not form part of the Notice but is offered by way of explanation).

- The Council intends to change the language category of Ysgol Bro Hyddgen, Machynlleth from Dual Stream to Welsh-medium.
- The rationale for this proposal was set out in a Consultation Document which was issued in December 2020. The Council has subsequently published a Consultation Report, which summarises the issues raised during the consultation period and provides the Council’s response to these issues. The Consultation Report is available on the Council’s website: <https://en.powys.gov.uk/article/9999/Ysgol-Bro-Hyddgen-Machynlleth>
- The intention is that the change to the school’s language category happens on a phased basis, year-by-year, starting with Reception in September 2022.
- All pupils currently accessing English-medium provision at the school would be able to continue to access this provision throughout their time at Ysgol Bro Hyddgen.
- Following implementation of the proposal, all pupils attending Ysgol Bro Hyddgen would develop the skills needed to become fully bilingual, fluent in Welsh and English.
- The change in the school’s language category would be phased in as follows:

² Available at: <https://gov.wales/defining-schools-according-welsh-medium-provision>

Primary phase:

Reception – September 2022
Year 1 – September 2023
Year 2 – September 2024
Year 3 – September 2025
Year 4 – September 2026
Year 5 – September 2027
Year 6 – September 2028

Secondary phase:

Year 7 – September 2029
Year 8 – September 2030
Year 9 – September 2031
Year 10 – September 2032
Year 11 – September 2033
Year 12 – September 2034
Year 13 – September 2035

- Following full implementation of the proposal, the language category of the primary phase would be Welsh-medium (Category 1), and the language category of the secondary phase would be Bilingual (Category 2A).
- The Welsh Government information document “Defining schools according to Welsh Medium provision 023/2007” provides a description of the language categories for schools according to the amount of Welsh used in teaching and learning. The document is available on the Welsh Government’s website at: <https://gov.wales/defining-schools-according-welsh-medium-provision>.
- The Welsh Government has recently carried out consultation on updated school categories according to Welsh-medium provision. Information about the consultation is available on the Welsh Government’s website at this address: <https://gov.wales/school-categories-according-welsh-medium-provision>. The outcome of this consultation exercise has not yet been published.
- Once the outcome of the Welsh Government’s recent consultation exercise on school language categories has been published, the Council will review the language category of Ysgol Bro Hyddgen in accordance with the actions required by Welsh Government.
- More information about bilingualism and Welsh-medium education is available on the Council’s website at: <https://en.powys.gov.uk/article/10742/Destination-bilingual-the-benefits-of-choosing-a-Welsh-medium-education>.
- To support the change to Ysgol Bro Hyddgen’s language category, the Council would ensure that additional language support is available at the school to support pupils, including immersion provision, additional Welsh language support and opportunities for parents to learn Welsh.
- This proposal would not affect the right of parents to express a preference for other schools.
- There would be no change to the transport arrangements for pupils currently attending Ysgol Bro Hyddgen. For pupils attending Ysgol Bro Hyddgen in the future, transport would be provided in accordance with the Council’s home to school transport policy.